

COCH, GWYN A GLAS! Y BONT YN CHWIFIO'R FANER AR GYFER PENWYTHNOS BRENHINOL

MAE Pont y Ddraig eiconig y Rhyl i'w thrawsnewid fel rhan o ddathliadau'r penwythnos Brenhinol.

Bydd y tirnod hwn yn yr harbwr yn edrych yn frenhinol iawn i ddathlu digwyddiad cyntaf Cyngor Tref y Rhyl y flwyddyn hon.

Mae'r Cyngor wedi trefnu i'r bont gael ei goleuo yn goch, gwyn a glas o nos Wener Mehefin 10. Mae goleuo'r bont yn nodi dechrau penwythnos Brenhinol y Rhyl, sy'n gweld sinema solar, jiwcbocs dynol a llawer o ddigwyddiadau cymunedol yn dod i'r dref.

Meddai'r Maer, y Cynghorydd Sarah Roberts: "Bydd goleuo'r bont yn cyhoeddi dechrau ein digwyddiad arbennig i ddathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90. Mae'n ymddangos bod Mehefin 11 yn mynd i fod yn ddiwrnod arbennig iawn gyda gweithareddau i bobl o bob oed ledled y Rhyl. Mae goleuadau'r bont yn sicr o fod yn olygfa ysblennydd a fydd yn rhoi naws Frenhinol iawn i lan y môr."

Mae'r Cyngor Tref wedi gweithio gyda thîm yr harbwr a thechnegwyr goleuo theatr Cyngor Sir Ddinbych i newid lliwiau'r bont.

Meddai'r Harbwrfeistr Arthur Davies: "Mae Pont y Ddraig bob amser yn edrych yn wych gyda'r nos ond bydd hyn yn rhywbeth cwbl wahanol. Rydym yn falch o fod yn rhan o ddigwyddiad y Cyngor Tref."

Mwy/...



-2-

Caiff y bont ei goleuo o nos Wener (Mehefin 10) i ddydd Sul (Mehefin 12).

Meddai'r Cynghorydd Roberts: "Rydym yn siŵr y bydd goleuadau'r bont yn denu llawer o ffotograffwyr ac ymwelwyr ac rydym yn eu hannog i rannu eu lluniau gyda ni ar ein tudalen Facebook ac @RhylTownCouncil ar Twitter."

Mae'r Penwythnos Brenhinol yn cael ei gynnal ledled y Rhyl rhwng 11am a 4pm ar ddydd Sadwrn.

Bydd Rheilffordd Fach y Rhyl yn rhedeg trê'n gyda thema Frenhinol a bydd 4theCommunity yn Eglwys y Santes Fair, Ffordd Wellington, yn cynnal digwyddiad sy'n cynnwys gemau stryd, potio planhigyn, castell sbonio a mwy.

Mae helpa drysor yn mynd o gwmpas tirnodau'r Rhyl yn cael ei threfnu gyda ffurflenni ar gael yn Gifted yng Nghanolfan Siopa'r White Rose. Bydd unrhyw un sy'n mynychu wedi ei wisgo fel Tywysog neu Dywysoges yn cael gwobr.

Bydd Gifted hefyd yn cynnal amrywiol weithgareddau peintio wynebau a lapio gwallt.

Y digwyddiad hwn yw'r cyntaf mewn rhaglen o weithgareddau sy'n cael eu trefnu gan Gyngor Tref y Rhyl dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Diwedd

1 Mehefin 2016

